


# Rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth 2023 - 2025

## CYSWLLT FFERMIO



Ariennir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Funded by  
**Welsh Government**



**FARMING**  
connect  
cyswllt  
**FFERMIO**

# Cynnwys

<b>1. Rhagymadrodd</b>	<b>3</b>
<b>2. Rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth</b>	<b>4</b>
2.1 Rhwydwaith Ein Ffermydd Cyswllt Ffermio	4
2.2 Grwpiau Trafod	4
2.3 Dosbarthiadau Meistr	5
2.4 Meincnodi	5
2.5 Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth	5
2.6 Dechrau Ffermio	5
2.7 Olyniaeth	5
<b>3. Rhaglen Dysgu a Datblygu Gydol Oes</b>	<b>6</b>
3.1 Cynlluniau Datblygu Personol (PDP)	6
3.2 Hyfforddiant Achrededig	6
3.3 Gweithdai Iechyd a Lles Anifeiliaid	6
3.4 Mentora Un-i-Un	6
3.5 Agrisgôp	6
3.6 Academi Amaeth	7
3.7 E-ddysgu	7
3.8 Datblygiad Proffesiynol Parhaus / Storfa Sgiliau	7
<b>4. Gwasanaeth Cyngori</b>	<b>7</b>
<b>5. Y Ganolfan Wasanaeth</b>	<b>8</b>
5.1 Y Ganolfan Wasanaeth	8
5.2 Casglu Data	8
<b>6. Rhaglen Lledaenu Trosglwyddo Gwybodaeth a Digwyddiadau</b>	<b>8</b>
6.2 Digwyddiadau Ymwybyddiaeth Strategol	8
6.3 Cymorthfeydd a Chlinigau Un-i-Un	9
6.4 Podlediad Clust i'r Ddaear	9
6.5 Gwefan	9
6.6 Cyhoeddiadau Technegol	9
6.7 Taflenni ffeithiau, Canllawiau ac Erthyglau technegol/datganiadau i'r wasg	9
6.8 E-Fwletin	9
6.9 Sioeau, arddangosfeydd a marchnadoedd da byw	10
6.10 Dangosfyrddau	10
<b>7. Rhaglen Geneteg Defaid Cymru (WSGP)</b>	<b>10</b>
<b>8. Gwasanaeth Cymorth Garddwriaeth</b>	<b>10</b>
<b>Atodiad A</b>	<b>11</b>

## 1. Rhagymadrodd

Bydd y Cyswllt Ffermio nesaf yn cael ei ddarparu drwy'r Rhaglenni canlynol, pob un â'u hamcanion allweddol eu hunain:

**Rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth** (a ddarperir gan Menter a Busnes)

Rhaglen arloesol i gefnogi'r diwydiant ffermio i sicrhau mwy o gynaliadwyedd, gwell cystadleurwydd, a gwell perfformiad amgylcheddol i fusnesau ffermio yn unol ag amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM) (gweler Atodiad A).

**Rhaglen Dysgu a Datblygu Gydol Oes** (a ddarperir gan Lantra)

Darparu diwydiant mwy proffesiynol drwy ei gefnogaeth ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP), dysgu gweithredol, mentora, hyfforddiant achrededig, e-ddysgu a ffocws clir ar ddatblygiad personol.

**Gwasanaeth Cyngori** (a ddarperir gan Menter a Busnes)

Darparu cyngor annibynnol pwrpasol ar draws ystod eang o feysydd technegol a rheoli busnes arbenigol i wella rheolaeth gynaliadwy a pherfformiad economaidd ac amgylcheddol busnesau ffermio.

**Canolfan Wasanaeth** (a ddarperir gan Menter a Busnes)

Y prif bwynt cyswllt ar gyfer pob buddiolwr i gofrestru a hyrwyddo'r holl weithgareddau a gwasanaethau sydd ar gael trwy Cyswllt Ffermio.

**Rhaglen Lledaenu Trosglwyddo Gwybodaeth a Digwyddiadau** (a ddarperir gan Menter a Busnes)

Rhaglen arloesol, sy'n lledaenu gweithgareddau a digwyddiadau trosglwyddo gwybodaeth er budd y sector ffermio yng Nghymru i helpu i bontio busnes ffermio i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (CFFC).

**Rhaglen Geneteg Defaid Cymru** (a ddarperir gan Menter a Busnes)

Rhaglen arloesol o weithgarwch sy'n addas i gefnogi anghenion sector defaid Cymru gan weithio gyda busnesau i nodi eu perfformiad sylfaenol presennol, nodi'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPI) ar gyfer y busnesau, a chreu cynllun gweithredu gydag argymhellion clir i wella Geneteg Defaid Cymru.

**Gwasanaeth Cefnogi Garddwriaeth** (a ddarperir gan Lantra)

Gwasanaeth cefnogi ar gyfer garddwriaethwyr masnachol yng Nghymru a fydd yn meithrin arloesedd, llwyddiant busnes a ffermio sy'n fwy cyfeillgar i'r amgylchedd. Ar yr un pryd, bydd yn hwyluso cydweithio rhwng cynhyrchwyr a phroseswyr i wella hyfywedd cadwyni cyflenwi. Bydd y Gwasanaeth yn rhoi cyfle i randdeiliaid garddwriaethol drafod materion sy'n wynebu'r sector ac i Lywodraeth Cymru glywed eu llais.

### GWAELODLINAU

Bydd cynnig Cyswllt Ffermio yn seiliedig ar dair thema allweddol Busnes, Tir a Da Byw. Bydd y themâu hyn yn helpu i ganolbwyntio taith y cwsmer drwy'r rhaglen gyda phob ffermwr yn gallu uniaethu ag un neu bob un ohonynt.

Bydd y gwaelodlinau ar gyfer pob un o'r themâu yn cael eu hyrwyddo fel arfer gorau a byddant yn fan cychwyn taith cwsmer, gan sicrhau bod cefnogaeth Cyswllt Ffermio yn seiliedig ar angen. Er nad yw'n orfodol, dim ond ar y sail y gellir dangos tystiolaeth o'r angen ar un o'r gwaelodlinau a nodir o dan y tair thema y gellir eu derbyn i rai Gweithdai/Cymorthfeydd neu Glinigau penodol.

Y gwaelodlinau a nodwyd yw:

Thema	Gwaelodlin
Busnes	Cynllun Busnes (BP)/Meincnodi*
Tir	Cynlluniau Rheoli Maetholion (NMP)*
Da byw	Cynlluniau Iechyd Anifeiliaid (AHP) *

\*Nid oes rhaid i'r gwaelodlinau fod wedi cael eu darparu gan Cyswllt Ffermio

Mae'r Cynllun Datblygu Personol (PDP) yn berthnasol i bob un o'r tair thema. Bydd y PDP yn darparu gwaelodlin hanfodol o lefel gwybodaeth cwsmer, gan helpu i nodi bylchau sgiliau gan alluogi cyfeirio at ddarpariaeth Cyswllt Ffermio i ddiwallu anghenion unigol a'r diwydiant, gan alluogi mesur cynnydd ar yr un pryd.

Bydd y sectorau allweddol fel yr amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru, sef Llaeth, Cig Coch, Tir â'r, Dofednod, Coedwigaeth, Garddwriaeth a Moch yn parhau i ddarparu sail y rhaglen. Nod y cynllun fydd cyflawni'r canlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy — aer glân, dŵr glân, gwell mynediad ac ymgysylltiad, iechyd a lles anifeiliaid uchel, gwneud y mwyaf o storio carbon, lliniaru'r perygl o lifogydd a sychder, diogelu tirweddau naturiol a'r amgylchedd hanesyddol, lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, cynnal a gwella ecosystemau gwydn ac effeithlonrwydd adnoddau.

## 2. Rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth

Drwy'r rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth, bydd cynnig cydlynol a modiwlaidd ar gael i gefnogi dilyniant busnesau drwy heriau a chyfleoedd cyfredol ac sydd ar y gweill. Bydd negeseuon allweddol a nodau ac amcanion strategol Llywodraeth Cymru ynghyd â gwybodaeth am ymchwil ac arloesedd blaenllaw yn y diwydiant yn cael eu lledaenu tra ar yr un pryd yn darparu cyfleoedd i ffermwyr roi adborth ar ymarferoldeb gweithredu.

Mae'r Rhaglen yn cynnig ystod o ddulliau cyflwyno i ledaenu gwybodaeth i'r sector ffermio yng Nghymru er mwyn darparu dull trosglwyddo gwybodaeth effeithiol, gan ysgogi ymddygiad newid ac agweddau er mwyn manteisio i'r eithaf ar syniadau newydd.

### MAE YMYRIADAU YN CYNNWYS:

#### 2.1 Rhwydwaith Ein Ffermydd Cyswllt Ffermio

Bydd Rhwydwaith Ein Ffermydd Cyswllt Ffermio yn cefnogi pwysigrwydd cynyddol profi ffyrdd amgen o ffermio ac yn ymdrechu'n rhagweithiol i ddangos rheolaeth amgylcheddol a methodolegau i leihau allyriadau a meithrin gwydnwch i hinsawdd sy'n newid drwy integreiddio arferion arloesol a thechnolegau newydd a/neu ddulliau rheoli wrth i'r diwydiant baratoi i drosglwyddo i'r CFFC newydd

Bydd gwaith prosiect gwahanol ar draws rhwydwaith Ein Ffermydd Cyswllt Ffermio yn cynnwys:

- Prosiectau ar Raddfa Fach am gyfnod o 2 flynedd
- Arfer gorau ac arddangosiadau Technoleg Amaeth am gyfnod o 1 flwyddyn
- Prosiectau ymarferol drwy grwpiau trafod
- Prosiectau Cymru gyfan ar sawl safle
- Prosiectau rhoi cynnig arni sy'n canolbwyntio ar alinio â nodweddion CFFC.

Mae enghreifftiau o brosiectau presennol sy'n cael eu cyflwyno o fewn rhaglen gyfredol Cyswllt Ffermio i'w gweld ar y *wefan*.

#### 2.2 Grwpiau Trafod

Bydd grwpiau trafod Cyswllt Ffermio yn cael eu cyflwyno o dan y tair thema: Busnes, Tir a Da Byw. O dan bob thema, bydd rhaglen bwrpasol o weithgarwch ar gyfer pob sector a bydd yn cael ei hadeiladu ar ddull dysgu modiwlaidd gyda grwpiau'n cael eu cyflwyno trwy dair lefel wahanol o wybodaeth a dysgu o lefelau mynediad, uwch a lefel uwch+. Mae enghraifft o'r dull hwn i'w weld ym model blaenorol grŵp trafod Rhagori ar Bori Cyswllt Ffermio.

#### 2.3 Dosbarthiadau Meistr

Bydd dosbarthiadau meistr yn cael eu cyflwyno ar ddwy lefel; mynediad ac uwch, a byddant yn cael eu hintegreiddio â chyflwyno grwpiau trafod yn ogystal â chanolbwyntio ar sicrhau y bydd cyfranogwyr sy'n cwblhau dosbarth meistr yn gallu gweithredu'r hyn y maent wedi'i ddysgu.

Dosbarth Meistr Mynediad: bydd yn cael ei gyflwyno o dan y tair thema allweddol ac yn cyd-fynd ag un o nodweddion yr CFFC i helpu ffermwyr i drosglwyddo i'r cynllun newydd drwy fformat gweithdy undydd.

Dosbarth Meistr Uwch: bydd yn cael ei gyflwyno fel cwrs dwys deuddydd a bydd yn fwy penodol i'r pwnc. Bydd Cyswllt Ffermio yn parhau i gynnig dosbarthiadau meistr sy'n benodol i'r sector ac yn ogystal â chyflwyno'r dosbarthiadau meistr presennol yn barhaus, bydd dosbarthiadau meistr pellach yn cael eu datblygu yn unol â chefnogi ffermwyr i bontio i'r CFFC.

#### 2.4 Meincnodi

Bydd meincnodi yn rhan allweddol o Cyswllt Ffermio. Bydd yn orfodol i bob aelod o'r grwpiau trafod ac unigolion sy'n mynychu dosbarthiadau meistr ymgymryd â meincnodi ffisegol ac ariannol eu busnesau. Bydd hyn yn cynnwys casglu data ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (KPI) a fydd yn cefnogi busnesau i fod yn fwy cynaliadwy yn ariannol ac yn amgylcheddol.

Mae offeryn meincnodi presennol Cyswllt Ffermio, 'Mesur i Reoli' (M2M), ar gael i bob busnes cig coch a moch a bydd yn cael ei ddatblygu i gynnwys Sectorau eraill. Mae'r offeryn yn galluogi busnesau i fesur, cofnodi a rheoli data ffisegol, amgylcheddol ac ariannol o fewn eu busnes drwy:

- Ganiatáu meincnodi KPI data ffisegol, ariannol ac amgylcheddol hyd at gost lawn y cynhyrchiant.
- Caniatáu i fusnesau adolygu eu cryfderau a'u gwendidau.
- Caniatáu i fusnesau feincnodi eu busnes yn erbyn gwaelodlinau'r diwydiant.

#### 2.5 Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth

Mae Cyswllt Ffermio wedi datblygu a defnyddio Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth (CG) sydd wedi darparu rhyngwyneb rhwng academyddion, gweithwyr ymgynghorol proffesiynol a ffermwyr ledled Cymru. Bydd canolfan isadeiledd y Ganolfan CG yn cael ei chynnal gan IBERS a bydd yn cynnwys Prifysgol Bangor wrth symud ymlaen.

Mae'r Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth yn trosi'r canfyddiadau ymchwil byd-eang ledled y DU a phriodol diweddaraf, gan ail-bwrpasu'r papurau gwyddonol a'r wybodaeth ymarferol i ddarparu gwybodaeth hygyrch trwy sawl sianel ddsbarthu ar gyfer Cyswllt Ffermio.

#### 2.6 Dechrau Ffermio

Pecyn cymorth wedi'i dargedu ar gyfer newydd-ddyfodiaid i fyd amaeth, gan adeiladu ar lwyddiant y rhaglen Mentro. Bydd cefnogaeth yn cael ei hariannu'n llawn a'i theilwra ar gyfer unigolion ar wahanol gyfnodau yn eu gyrfaedd ffermio i ddarparu'r sgiliau, y wybodaeth a'r hyder sydd eu hangen i ddechrau busnes ffermio. Bydd y gwasanaeth paru yn hysbysebu cyfleoedd ar ran ffermwyr a thirfeddianwyr sy'n dymuno cymryd cam yn ôl o ffermio llawn amser a bydd yn darparu gwybodaeth, mentora, cynllunio busnes a chynghor cyfreithiol i sefydlu menter newydd ar y cyd. Ochr yn ochr â hyn, gall newydd-ddyfodiaid gymryd rhan mewn digwyddiadau wedi'u targedu, gweithdai, dosbarthiadau meistr, cyrsiau hyfforddi a modiwlau E-ddysgu i'w cefnogi ar eu taith.

#### 2.7 Olyniaeth

Nod y rhaglen yw annog symudedd o fewn y diwydiant amaethyddol yng Nghymru, drwy ddarparu cyngor ac arweiniad i gefnogi perchnogion busnes a'u teuluoedd i ddatblygu cynllun olyniaeth. Gellir cefnogi teuluoedd ffermio i gael cyfarfodydd teuluol wedi'u hariannu a'u hwyluso'n llawn i drafod olyniaeth a datblygu cynllun. Gall y rhai sydd heb olynedd clir ddefnyddio'r gwasanaeth paru i ddod o hyd i ddarpar bartner busnes a chael mynediad at wybodaeth, mentora, cynllunio busnes a chynghor cyfreithiol i sefydlu menter ar y cyd newydd.

## 3. Rhaglen Dysgu a Datblygu Gydol Oes

Nod y rhaglen yw darparu diwydiant mwy proffesiynol drwy ei gefnogaeth ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP), dysgu gweithredol, mentora, hyfforddiant achrededig, E-ddysgu a ffocws clir ar ddatblygiad personol.

### MAE'R YMYRIADAU YN CYNNWYS:

#### 3.1 Cynlluniau Datblygu Personol (PDP)

Bydd staff Cyswllt Ffermio (lle bo angen) yn cynorthwyo buddiolwyr i ymgymryd â'r broses PDP, gan nodi cyfleoedd ar gyfer datblygiad personol a thynnu sylw at unrhyw anghenion datblygu. Bydd y rhaglen yn datblygu templed PDP wedi'i ddiweddarau a fydd yn helpu unigolion i ystyried amcanion hirdymor a nodau tymor byr. Bydd angen i gwsmeriaid sy'n chwilio am gymorth drwy naill ai hyfforddiant achrededig, Gweithdai lechyd a Lles Anifeiliaid neu Ddatblygu a Mentora gwblhau PDP fel dangosydd gwaelodlin.

#### 3.2 Hyfforddiant Achrededig

Gyda chefnogaeth rhwydwaith o Ddarparwyr Hyfforddiant wedi'u caffael, bydd y rhaglen yn cyflwyno teitlau cyrsiau newydd ar draws y tair thema, Busnes, Tir a Da Byw, i'r rhestr bresennol o 70 o gyrsiau achrededig.

Bydd hyfforddiant penodol yn cael ei ddatblygu i gefnogi dealltwriaeth a gweithrediad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd.

Gall unigolion cymwys gael hyd at 80% o gyllid ar gyfer cyrsiau hyfforddi a restrir.

#### 3.3 Gweithdai lechyd a Lles Anifeiliaid

Bydd Gweithdai lechyd a Lles Anifeiliaid yn cael eu darparu gan rwydwaith caffael o Bractisau Milfeddygol lleol, ar draws blaenoriaethau presennol Fframwaith lechyd a Lles Anifeiliaid Cymru a byddant yn datblygu pum pwnc newydd arall.

#### 3.4 Mentora Un-i-Un

Mae'r rhaglen fentora wedi'i thargedu at ffermwyr o bob oed a statws busnes, gan gynnwys:

- newydd-ddyfodiaid;
- busnesau sy'n ystyried newid strategol sylweddol mewn cyfeiriad (arallgyfeirio, gwerth ychwanegol, ehangu, mentrau newydd);
- unigolion sydd am adael y diwydiant;

Mae cymorth hefyd ar gael i unigolion sy'n chwilio am ail farn, seinfwrdd a chefnogaeth gyda busnes o ddydd i ddydd.

Gall mentoreion cymwys gael mynediad at 15 awr o fentora wedi'i ariannu'n llawn gyda'u mentor ffermio dewisol.

#### 3.5 Agrisgôp

Gall unigolion ymuno â grŵp Agrisgôp os ydynt am ddatblygu syniad, datrys problem neu yrru prosiect yn ei flaen. Mae Agrisgôp yn rhaglen dysgu gweithredol a ariennir yn llawn sy'n dod â 6-8 unigolyn blaengar, o'r un anian at ei gilydd i gefnogi a herio ei gilydd gyda phrosiectau unigol a grŵp. Dan arweiniad eu Harweinydd Agrisgôp, gall aelodau ddyysgu sgiliau newydd, adeiladu eu rhwydwaith, cael gafael ar wybodaeth arbenigol a gwneud i bethau ddiwydd.

#### 3.6 Academi Amaeth

Mae gan yr Academi Amaeth ddwy raglen wahanol a bydd 12 aelod yn ymuno â phob rhaglen yn flynyddol.

- Busnes ac Arloesi - gyda'r nod o gefnogi ac ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o entrepreneuriaid ffermio ac arloeswyr yng Nghymru.
- Rhaglen yr Ifanc — wedi'i anelu at gefnogi pobl ifanc rhwng 16 a 19 oed sy'n gobeithio creu gyrfa neu sefydlu busnes yn y diwydiannau bwyd neu ffermio.

Bydd y rhaglen yn cynnwys pedair sesiwn, a bydd tair ohonynt yn rhai preswyl, gan gynnwys ymweliad astudio dramor. Bydd gweithgareddau'r rhaglen yn cael eu hanelu at gefnogi datblygiad personol, adeiladu rhwydweithiau a galluogi cefnogaeth cymar i gymar. Bydd cyfnod ymgeisio'r Academi Amaeth ar gyfer dosbarth 2023 yn agor ym mis Ebrill.

#### 3.7 E-ddysgu

Bydd y rhaglen yn dylunio ac yn rheoli cyfres o ddeunydd cwrs ar-lein i ennyn diddordeb buddiolwyr, hwyluso dysgu trwy ddeunydd dysgu rhyngweithiol a chyfoethog. Bydd y cynnwys ar gael ar draws tair thema'r rhaglen: Busnes, Tir a Da Byw, ac amcanion a chanlyniadau strategol y fframwaith SLM.

Mae rhestr o'r cyrsiau cyfredol ar gael ar wefan Cyswllt Ffermio a gellir eu cyrchu drwy gyfrif BOSS (Gwasanaeth Cymorth Busnes Ar-lein): <https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/busnes/sgiliau-hyfforddiant/e-ddysgu>

#### 3.8 Datblygiad Proffesiynol Parhaus / Storfa Sgiliau

Bydd Cyswllt Ffermio yn datblygu fframwaith achredu ar gyfer yr holl weithgarwch a ddarperir drwy'r Rhaglen, i gefnogi a gwella proffesiynoldeb cynyddol y diwydiant yng Nghymru. Bydd yr holl hyfforddiant a datblygiad a wneir o fewn Rhaglen Cyswllt Ffermio yn parhau i gael eu cofnodi o fewn eu cyfrif Storfa Sgiliau ar-lein, diogel. Bydd hyfforddiant a datblygiad a wneir y tu allan i Cyswllt Ffermio drwy'r naill sefydliad neu'r llall fel Cyrff Lefi neu Gadwyni Cyflenwi hefyd yn gallu cael eu storio o fewn tab nad yw'n un Cyswllt Ffermio o fewn y platform.

## 4. Gwasanaeth Cynghori

Bydd y Gwasanaeth Cynghori yn darparu cyngor un-i-un a grŵp, annibynnol, pwrpasol a chyfrinachol i ffermwyr, wedi'i dargedu at wella cynaliadwyedd, perfformiad economaidd ac amgylcheddol busnesau unigol. Bydd y Gwasanaeth Cynghori yn helpu i drosglwyddo busnesau ffermio i'r CFFC.

Bydd busnesau cymwys yn gallu cael cyngor â chymhorthdal ar ystod o faterion penodol dros gyfnod y prosiect. Mae'r rhestr isod yn amlinellu'r categorïau allweddol sydd ar gael, mae chwe chategori newydd wedi'u cyflwyno yn y rhaglen newydd:

- Cynllunio Busnes
- Lles lechyd Anifeiliaid a Bio-ddiogelwch Technegol \*NEWYDD
- Cyngor Milfeddygol Arbenigol Technegol \*NEWYDD
- Rheoli Da Byw a Pherfformiad Technegol
- Rheoli Glaswelltir a Chnydau Technegol
- Rheoli Coetir Technegol
- Garddwriaeth Dechnegol
- Cynhyrchu Organig Technegol
- Amaeth-amgylchedd, Gwasanaethau Ecosystemau a Bioamrywiaeth Dechnegol
- Effeithlonrwydd Ynni a Dŵr Technegol \*NEWYDD
- Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy Technegol \*NEWYDD
- Arallgyfeirio a Gwerth Ychwanegol Technegol
- Prosesu Pren a Gwerth Ychwanegol Technegol
- Cyngor Carbon Technegol \*NEWYDD
- Technegol Amaethyddol Technegol \*NEWYDD

Bydd hyd at 90% o gyllid ar gael gyda chyfyngiad o £3000 i bob busnes cymwys i gael mynediad at gyngor busnes a thechnegol. Bydd Swyddogion Datblygu wrth law i gefnogi busnesau i wneud cais am gyllid.

Bydd y Gwasanaeth Cynghori yn cael ei ddarparu gan gynghorwyr sy'n gweithio i un o'r saith cwmni ymgynghori canlynol:

- ADAS Wales
- Agri Plan Cymru
- Andersons
- CARA
- Kite Consulting
- Landsker
- Mabis Amaeth

## 5. Y Ganolfan Wasanaeth

### 5.1 Y Ganolfan Wasanaeth

Y Ganolfan Wasanaeth fydd y prif bwynt cyswllt i'r holl fuddiolwyr gofrestru a hyrwyddo'r holl weithgareddau a gwasanaethau sydd ar gael ar draws Cyswllt Ffermio.

Bydd Cyswllt Ffermio yn cynnal ymarfer i wirio manylion cyswllt yr holl unigolion sydd wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio ar hyn o bryd i sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn gywir, gan sicrhau bod dewisiadau cwsmeriaid ar gyfer derbyn deunydd marchnata perthnasol yn cael eu diweddarau.

Bydd y tair gwaelodlin (NMP, BP, AHP) yn rhan annatod o'r broses ddilysu, lle bydd y Ganolfan Wasanaeth gwbl ddwyieithog yn gwirio a yw busnesau wedi ymgymryd â chynlluniau gwaelodlin ac yn diweddarau eu cofnodion yn unol â hynny. Bydd y wybodaeth hon yn llywio trafodaethau rhwng y Cwsmer a'r Swyddog Datblygu wrth iddynt drafod blaenoriaethau ar gyfer eu taith drwy Cyswllt Ffermio.

### 5.2 Casglu Data

Bydd hyn yn cynnwys cynnal arolwg dadansoddi effaith gyda Chwsmeriaid yn ogystal ag ymchwil wedi'i dargedu i nodweddu pobl nad ydynt yn cymryd rhan trwy Grwpiau Ffocws er mwyn deall yn well pam nad ydynt yn ymgysylltu â'r Rhaglen i gryfhau'r sylfaen dystiolaeth greiddiol ar gyfer rhaglenni'r dyfodol.

## 6. Rhaglen Lledaenu Trosglwyddo Gwybodaeth a Digwyddiadau

Bydd y rhaglen Lledaenu Trosglwyddo Gwybodaeth a Digwyddiadau yn chwarae rhan allweddol wrth gyfathrebu negeseuon i'r diwydiant trwy amrywiol ddigwyddiadau, cyhoeddiadau, erthyglau, datganiadau i'r wasg, podlediadau ac annog ymgysylltiad a datblygu ein presenoldeb ar-lein.

### MAE'R YMYRIADAU YN CYNINWYS:

#### 6.2 Digwyddiadau Ymwybyddiaeth Strategol

Bydd y rhaglen yn cyflwyno Digwyddiadau Ymwybyddiaeth Strategol ar amrywiaeth eang o bynciau yn amrywio o Ddigwyddiadau Arallgyfeirio i Sioeau Teithiol Sector-benodol, Digwyddiadau Galw Heibio a Gweithdai. Bydd digwyddiadau'n cael eu cyflwyno'n ddigidol ac wyneb yn wyneb a bydd y cynnwys yn cyd-fynd â chanlyniadau CFFC ac anghenion y diwydiant. Bydd Cyswllt Ffermio yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid allweddol a chyrrff y diwydiant i sicrhau dull integredig, cydgyssylltiedig o gyflawni pob un.

#### 6.3 Cymorthfeydd a Chlinigau Un-i-Un

Cymorthfeydd un-i-un ar gyfer ymgysylltu â'r busnesau anoddach eu cyrraedd na fyddent fel arfer yn cyrchu gwasanaethau cynghori arbenigol nac yn gyffyrddus wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau trosglwyddo gwybodaeth un-i-lawer. Mae clinigau ar gael i ddarparu arweiniad arbenigol ar bynciau perthnasol a gweithredu fel mecanwaith i wella sgiliau technegol, gwybodaeth ac ymwybyddiaeth.

Cynigir y clinigau a'r cymorthfeydd a ariennir yn llawn mewn slotiau o rhwng 1 a 2 awr, rhai yn cael eu cynnal ar ffermydd, rhai mewn lleoliad dynodedig neu'n ddigidol. Bydd y pynciau fydd yn cael sylw yn unol ag amcanion SLM gyda hyblygrwydd i fod yn ymatebol i anghenion y diwydiant ffermio. Gallai'r pynciau gynnwys:

- Olyniaeth
- Cynllunio
- Meincnodi
- Marchnata

Mae rhagor o fanylion am bynciau, dyddiadau a lleoliadau ar gyfer pob digwyddiad ar gael ar wefan Cyswllt Ffermio.

#### 6.4 Podlediad Clust i'r Ddaear

Bydd y podlediad "Clust i'r Ddaear" yn rhannu gwybodaeth dechnegol, cyngor, cefnogaeth ac ysbrydoliaeth i'r gymuned ffermio yng Nghymru. Dim ond 20 i 30 munud o hyd yw'r penodau a byddant yn cynnwys cyfweiliadau â ffermwyr ac arbenigwyr yn y diwydiant ar amrywiaeth o themâu cyfoes.

Bydd y podlediad ar gael i wrando arno ar wefan Cyswllt Ffermio a llwyfannau ffrydio sain.

#### 6.5 Gwefan

Mae gwefan Cyswllt Ffermio yn gweithredu fel offeryn Trosglwyddo Gwybodaeth a chyfathrebu. Mae'n cael ei chynnal gan Lywodraeth Cymru ar blatfform Busnes Cymru. Ar y wefan, gall defnyddwyr gofrestru gyda Cyswllt Ffermio, gwneud cais am gyllid hyfforddi, cymryd rhan mewn sgwrs fyw gydag un o dîm Cyswllt Ffermio a chael mynediad i'r platfform E-ddysgu (BOSS) ac adnoddau trosglwyddo gwybodaeth, gan gynnwys taflenni ffeithiau ac erthyglau technegol.

#### 6.6 Cyhoeddiadau Technegol

Bydd pedwar cyhoeddiad technegol blynyddol yn cael eu cynhyrchu bob blwyddyn. Mae'r cyhoeddiad yn lledaenu a gwybodaeth gan Ein Ffermydd a phrosiectau eraill drwy godi ymwybyddiaeth o faterion ar y cyd â gofynion y diwydiant, Byrddau Ardollau a blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru. Mae'r broses o greu'r cynnwys yn cael ei arwain i raddau helaeth gan Swyddogion Technegol y prosiect a'n Rhwydwaith Ffermydd. Bydd cynnwys yr erthygl hefyd yn gysylltiedig â gwasanaethau ehangach Cyswllt Ffermio lle bo hynny'n bosibl.

#### 6.7 Taflenni ffeithiau, Canllawiau ac Erthyglau technegol/datganiadau i'r wasg

Ysgrifennir erthyglau technegol yn broffesiynol gan arbenigwyr mewnol, partneriaid strategol, aelodau o sefydliadau is-gontractio neu arbenigwyr eraill.

Cynhyrchir taflenni ffeithiau ar ganfyddiadau prosiectau Ein Ffermydd; mae'r rhain yn arbennig o briodol os oes offeryn neu broses y gellir ei weithredu'n ymarferol ar ffermydd eraill.

Mae'r holl erthyglau newyddion, Astudiaethau Achos ac Erthyglau Technegol ar gael i'w gweld ar wefan Cyswllt Ffermio (*gweler y ddolen*).

#### 6.8 E-Fwletin

Bydd Cyswllt Ffermio yn cynhyrchu *e-fwletin*au misol i ddiweddarau cwsmeriaid, rhanddeiliaid a phartneriaid cyflenwi ar flaenoriaethau a negeseuon allweddol sy'n benodol i Cyswllt Ffermio. Bydd yr e-fwletin yn cael ei anfon at bob cwsmer sydd wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio ac sydd wedi darparu cyfeiriad e-bost dilys.

## 6.9 Sioeau, arddangosfeydd a marchnadoedd da byw

Er mwyn ymgysylltu â'r diwydiant a hyrwyddo'r nifer sy'n manteisio ar y rhaglen, bydd Cyswllt Ffermio yn mynychu sioeau amaethyddol, arddangosfeydd, digwyddiadau sector-benodol a marchnadoedd gwerthu a da byw ar draws pob rhanbarth, gyda rhaglen wedi'i chynllunio sy'n adlewyrchu gofynion daearyddol a sectoraidd er mwyn cyrraedd cynulleidfaoedd targed. Bydd presenoldeb ar y cyd â'r Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm (FLS) mewn rhai digwyddiadau yn sicrhau bod gwasanaeth effeithlon ac integredig yn cael ei ddarparu i gwsmeriaid.

## 6.10 Dangosfyrddau

Mae Cyswllt Ffermio yn defnyddio dangosfyrddau i hysbysu rhanddeiliaid, partneriaid cyflenwi a buddiolwyr ar y cynnydd a wnaed gyda chyflwyniad y rhaglen a bydd y cynnwys yn cyd-fynd â'r cynllun cyflawni ar gyfer y chwarter.

Gellir gweld y rhain yma.

# 7. Rhaglen Geneteg Defaid Cymru (WSGP)

Gyda'r nod o ehangu gwelliant genetig diadelloedd defaid Cymru ymhellach er mwyn gwella effeithlonrwydd economaidd ac amgylcheddol cyffredinol y diwydiant defaid yng Nghymru, bydd y rhaglen yn canolbwyntio ar gynyddu nifer y ffermwyr defaid sy'n cymryd rhan mewn gwelliannau genetig i'w diadelloedd a nifer y ffermwyr sy'n cofnodi ac yn defnyddio Gwerthoedd Bridio Bras (EBV) at eu dibenion bridio eu hunain ac wrth wneud penderfyniadau prynu.

Ar ôl recriwtio ffermydd, bydd ffocws ar nodi a chofnodi Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer pob fferm sy'n cymryd rhan, bydd cynllun gweithredu yn cael ei greu a chymorth gweithredu yn cael ei ddarparu drwy becyn cymorth gan gynnwys Gweithdai Paratoi at Eneteg a fydd yn rhoi cyfle i ffermwyr dderbyn hyfforddiant, gweld arferion rheoli arloesol, rhannu arfer gorau a dysgu gan eu cyfoedion gyda'r nod o weithredu newidiadau rheoli i wella dealltwriaeth a defnydd o EBV.

Bydd ffermydd sydd wedi'u recriwtio yn elwa o;

- Becyn cymorth ariannol tuag at gwblhau casglu data - canfod tras trwy DNA, sganio braster y cefn - cost Signet blynyddol.
- Cyngor ac arweiniad ar osod targedau cyraeddadwy ar gyfer gwelliannau genetig o fewn pob diadell unigol drwy osod Dangosyddion Perfformiad Allweddol a gweithredu Cynlluniau Gweithredu Bridio.
- Cyfleoedd i wella gwybodaeth a dealltwriaeth o fethodoleg cofnodi perfformiad.
- Cyfleoedd i fod yn rhan o gasglu data ar gyfer ymchwil arloesol — e.e. bridio ar gyfer cynhyrchu llai o fethan, bridio ar gyfer ymwrthedd i lyngyr a chynhyrchu gwerthoedd bridio genomig yn rheolaidd.
- Manteisio ar Becyn Cymorth Cyswllt Ffermio.
- Cyfleoedd i wella gwybodaeth am ddatblygiadau ym maes geneteg defaid, gan gynnwys technoleg arloesol.

Bydd y prif ganfyddiadau yn digwydd ar draws Cyswllt Ffermio i wella gwybodaeth a dealltwriaeth o welliant genetig drwy'r diwydiant.










# 8. Gwasanaeth Cymorth Garddwriaeth

Bydd y Gwasanaeth yn darparu cefnogaeth i fusnesau garddwriaeth fasnachol, gan gyflwyno llais i'r diwydiant a chyfleoedd i drafod materion sy'n wynebu'r sector.

Bydd busnesau sydd wedi'u recriwtio yn elwa o raglen hyfforddi gynhwysfawr o ymweliadau astudio, diwrnodau hyfforddi, E-ddysgu a sesiynau ar-lein a gyflwynir ar draws rhwydweithiau tyfwyr gyda ffocws ar gynaliadwyedd a'u paratoi ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Darperir cyngor ac arweiniad arbenigol ar bob agwedd ar redeg gweithrediad garddwriaethol, gan gynnwys meysydd fel iechyd planhigion, achredu tyfwyr, marchnata a gwerthu. Bydd pob graddfa a math o fusnes garddwriaeth yn gymwys gyda'r Gwasanaeth yn gweithio ar draws y gadwyn gyflenwi i nodi cyfleoedd a heriau, gan adeiladu gwydnwch a gwella hyfywedd.

# Atodiad A

## Canlyniadau SLM:

<b>Aer glân</b>	Aer sydd â llygredd cyfyngedig (gronynnau a wnaed gan bobl a nwyon niweidiol) gan gynnwys deunydd gronynnol mân, amonia a chyfansoddion organig anweddol nad ydynt yn fethan.	
<b>Dŵr glân</b>	Yr amgylchedd dŵr (gan gynnwys dŵr mewndirol) yn cael ei reoli'n gynaliadwy i gefnogi cymunedau iach, busnesau ffyniannus a bioamrywiaeth.	
<b>Gwell mynediad ac ymgysylltu</b>	Pobl yn gallu mwynhau cefn gwlad yn haws er budd iechyd a lles.	
<b>Iechyd a lles anifeiliaid uchel</b>	Anifeiliaid yn iach, yn gynhyrchiol ac mae ganddynt ansawdd bywyd da.	
<b>Gwneud y mwyaf o storio carbon</b>	Creu stociau carbon newydd a gwella rhai presennol ar ffermydd, er enghraifft; drwy gynyddu cynnwys carbon y pridd, adfer mawndiroedd, plannu coed a/neu wrychoedd a rheoli coetiroedd fferm.	
<b>Lliniaru perygl llifogydd a sychder</b>	Ffermydd yn paratoi ar gyfer cyfnodau o lawiad isel neu uchel, gan leihau'r peryglon i'r fferm a chymunedau o lifogydd, sychder ac erydu arfordirol, gan gynnwys trwy reoli llifogydd ar sail natur.	
<b>Tirweddau naturiol gwarchoddedig a'r amgylchedd hanesyddol</b>	Gwarchod a gwella harddwch naturiol, treftadaeth ddiwylliannol a'r amgylchedd hanesyddol.	
<b>Llai o allyriadau nwyon tŷ gwydr</b>	Ffermydd yn lleihau eu hallyriadau nwyon tŷ gwydr, gan gynnwys drwy wneud defnydd effeithlon o danwydd ac ynni, lleihau mewnbynnau allanol a chael da byw a chnydau cynhyrchiol.	
<b>Ecosystemau gwydn</b>	Cynnal a gwella gwydnwch ecosystemau gan sicrhau manteision ar gyfer bioamrywiaeth, rhywogaethau a chynefinoedd.	
<b>Effeithlon o ran adnoddau</b>	Defnyddio dull cylchol drwy gadw adnoddau a deunyddiau ar gyfer ein defnydd ni ein hunain cyhyd ag y bo modd ac osgoi pob gwastraff.	